# Codi'r oedran ar gyfer gwerthu tybaco

## Gwybodaeth am yr Ymgyrch

O **ddydd Llun, 1af Hydref 2007**, bydd y gyfraith o ran gwerthu tybaco yn newid. Bydd yn anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed (o gymharu ag 16 oed ar hyn o bryd) yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir i'r newid yn y gyfraith ddod i rym yn yr Alban hefyd o'r un dyddiad.

Dechreuodd y rhan fwyaf o oedolion sy'n gaeth i nicotin ysmygu yn eu harddegau. Bwriad y newid hwn yn y gyfraith yw helpu i atal plant a phobl ifanc rhag dechrau yn y lle cyntaf, a thrwy hynny osgoi peryglon iechyd difrifol ysmygu.

### Beth sy'n digwydd?

- I ategu'r ddeddfwriaeth newydd, mae'r Adran Iechyd wrthi'n cynnal ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r newid yn yr oedran ac i annog manwerthwyr a defnyddwyr i gydymffurfio â hi.

- Bydd yr ymgyrch a gynhelir ar bedwar cam yn egluro sut y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar gynulleidfaoedd, a'r hyn sydd angen i ddefnyddwyr a manwerthwyr ei wneud i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar 1af Hydref.

- Bydd y ddeddfwriaeth yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i fanwerthwyr werthu unrhyw gynnyrch tybaco i unrhyw un o dan 18 oed. Bydd yr ymgyrch yn rhoi gwybodaeth i fusnesau am yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith newydd, megis yr angen i osod arwyddion yn nodi'r cyfyngiad oedran newydd. Bydd hyn yn ategu'r wybodaeth y byddant yn ei chael gan y sefydliadau masnach.

- Bydd yr ymgyrch i ddefnyddwyr yn canolbwyntio ar wneud pobl ifanc yn eu harddegau yn ymwybodol o'r newid, a bydd hefyd yn cyfeirio at y cymorth sydd ar gael gan y GIG i'r sawl sydd am roi'r gorau i ysmygu.

### Sut y cynhelir yr ymgyrch gyfathrebu?

#### *Cam 1 (Mai/Mehefin 2007)*

Rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i rannu gwybodaeth a darparu adnoddau i'w helpu i gyflwyno manylion y newid yn y gyfraith, a'r ymgyrch gyfathrebu, i'w haelodau.

Ymhlith y rhanddeiliaid mae:

- sefydliadau manwerthu (e.e. Consortiwm Manwerthu Prydain, Cymdeithas y Siopau Cyfleus)
- cynlluniau cerdyn profi oedran (e.e. Bwrdd y Cynllun Safonau Profi Oedran (PASS), Citizencard)
- cyrff cydymffurfio (e.e. LACORS, Safonau Masnach)
- sefydliadau iechyd (e.e. ASH, Ymchwil Canser y DU)

- mudiadau ieuenctid (e.e. Ysgolion Iach, Clybiau Ieuenctid y DU)

### *Cam 2 (Gorffennaf 2007)*

Ar ddiwedd mis Gorffennaf caiff gwybodaeth ragarweiniol ei hanfon i'r manwerthwyr hynny a nodwyd fel y rhai â'r niferoedd uchaf o gwsmeriaid rhwng 16 a 17 oed. Bydd yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol i berchenogion siopau a staff, a gellir ei defnyddio fel hysbysiad i dynnu sylw cwsmeriaid at y newid sydd ar fin cael ei wneud.

Sefydlwyd gwefan benodol i fanwerthwyr a rhanddeiliaid, fel siop un stop ar gyfer gwybodaeth: **tobaccoagechange.co.uk**.

Mae cyswllt â'r cyfryngau o ran y newid yn yr oedran ar gyfer gwerthu tybaco hefyd yn cychwyn ar gam dau, gan gynnwys cysylltu â chyfryngau defnyddwyr a manwerthwyr cenedlaethol a rhanbarthol.

### *Cam 3 (Gorffennaf - Medi 2007)*

Caiff ail becyn gwybodaeth ei anfon ym mis Awst i fwy na 100,000 o fanwerthwyr yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y rhai a gafodd y wybodaeth gychwynnol ym mis Gorffennaf. Bydd yn cynnwys 'pecyn cymorth' a hysbysiad statudol y bydd yn rhaid i fanwerthwyr ei arddangos o 1af Hydref. Bydd yr hysbysiad a'r holl wybodaeth a gynhwysir yn y pecyn cymorth ar gael drwy'r wefan.

Gan ganolbwyntio'n arbennig ar bobl ifanc 16 a 17 oed, bydd trydedd cam yr ymgyrch gyfathrebu hefyd yn ceisio dal sylw pobl ifanc yn eu harddegau drwy gyfres o weithgareddau cysylltu â'r cyfryngau a gweithgarwch digidol, a fydd yn cynnwys gwefan benodol, hysbysebion ar-lein, cysylltiadau ategol â'r cyfryngau targed ar-lein a'r cyfryngau targed darlledu a gwaith parhaus gyda chylchgronau i bobl ifanc yn eu harddegau a defnyddwyr.

### *Cam 4 (Medi/Hydref 2007)*

Bydd pedwaredd cam yr ymgyrch yn canolbwyntio ar atgoffa manwerthwyr a defnyddwyr o'r newid.

Caiff ymgyrch hysbysebu poster awyr agored ei lansio ym mis Medi mewn lleoliadau targed, gan gynnwys siopau cyfleus lleol lle y caiff sigarét eu prynu gan bobl ifanc yn eu harddegau.

Bydd cyswllt â'r cyfryngau sy'n cael ei anelu at ddefnyddwyr targed yn parhau yn yr wythnosau olaf, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu rhybuddio o'r newid yn y gyfraith a ddaw i rym ar 1af Hydref.

Am ragor o wybodaeth am y newid mewn deddfwriaeth neu'r ymgyrch gyfathrebu, neu i gael gafael ar adnoddau ychwanegol, ewch i **www.tobaccoagechange.co.uk** neu ffoniwch **020 7492 0980**.